System Dendro Trafnidiaeth Cymru - Atamis

Canllaw cyflym ar sut i ddefnyddio System Atamis TrC

Ar gael i Gyflenwyr

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Contents

Contents....2
Sut i dendro drwy Atamis....3
Cofrestru ar y Porth....3
Canfod cyfleoedd a chofrestru eich diddordeb....4
Manylion Cyfleoedd....7
Cael Gafael ar Ddogfennau....8
Llenwi'r Holiaduron....9
Cyflwyno eich Tendr a/neu Gais....11
Cwestiynau Cyffredin....12
Atgoffa am fanylion cymorth....12

Version Final v1.0

Sut i dendro drwy Atamis


Cofrestru ar y Porth

I gofrestru ar borth Atamis Trafnidiaeth Cymru, cliciwch yma - Croeso

Ar ôl i chi gofrestru, byddwch yn dod o hyd i'ch hafan gyda dolenni mynediad amrywiol.

Cofiwch ddiweddaru eich Manylion Cwmni a Chysylltiadau, gan fod yr wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i dendrau.

Eich enw defnyddiwr ar gyfer porth Atamis TrC fydd eich cyfeiriad e-bost, gyda **.tfw** ar y diwedd. (er enghraifft, supplier1@web.com.tfw)



Platfform Digidol Canolog (CDP)

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gofyn am eich cod rhannu CDP yn ystod y tendr. Gwnewch yn siŵr bod eich manylion ar y CDP yn gywir ac yn gyfredol cyn cynhyrchu cod rhannu newydd.

Os nad oes gennych chi gyfrif ar y CDP, gallwch gofrestru yma - Mewngofnodi - Gwasanaeth Cofrestru Cyflenwyr


Os oes angen cymorth arnoch i gofrestru, ewch i - Cyflenwyr: Sut i gofrestru eich sefydliad a'ch gweinyddwr cyntaf ar Dod o hyd i Dendr mewn tri cham hawdd (HTML) - GOV.UK

Dylech greu cod rhannu newydd ar gyfer pob cyfle tendro rydych chi'n gwneud cynnig amdano.

Canllawiau cyffredinol ar godau rhannu CDP;

- Ewch ati i greu cod rhannu newydd ar wefan CDP ar gyfer pob cyfle tendro o'r CDP.
- Dylai'r cod rhannu fod yn 8 ffigur o hyd a dim ond y cod rhannu y dylid ei roi.
- Mae cod rhannu'r CDP yn wahanol i rif PPON eich sefydliad.


Canfod cyfleoedd a chofrestru eich diddordeb




I weld a chofrestru ar unrhyw gyfleoedd tendro Trafnidiaeth Cymru, cliciwch ar yr adran '**Canfod Cyfleoedd'** ar yr hafan.

Cystadlaethau Bach o dan Fframwaith


Os ydych chi wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn cystadleuaeth fach o dan Fframwaith, anwybyddwch y cam hwn a chlicio ar '**Fy Nghynigion a'm Dyfynbrisiau**'. Mae canllawiau pellach ar y camau nesaf ar gael dan yr adran *Cyflwyno Cynnig.*




Bydd rhestr o'r holl gyfleoedd tendro byw ar gael. I glicio ar dendr, cliciwch ar y botwm **Gweld.**



I gofrestru eich diddordeb a/neu i gael rhagor o wybodaeth am y tendr, dogfennau a gofynion y tendr, cliciwch ar y **botwm cofrestru diddordeb.**




Cliciwch '**Cadarnhau**' i fwrw ymlaen.




I gael rhagor o wybodaeth am y tendr rydych chi wedi cofrestru eich diddordeb ynddo, cliciwch y botwm **hafan** ar yr ochr dde uchaf, ac yna dilynwch y camau yn yr adran 'Cyflwyno cynnig' isod.


Manylion Cyfleoedd



Ar ôl i chi gofrestru ar gyfer y tendrau y mae gennych ddiddordeb ynddynt, ewch yn ôl i'r hafan lle gallwch weld y botwm '**Fy Nghynigion a'm Dyfynbrisiau**'.




Byddwch yn gweld yr holl dendrau rydych chi wedi cofrestru ar eu cyfer yn yr adran '**Fy Nghynigion a'm Dyfynbrisiau**'. I weld dogfennau, gofynion ac i ddechrau drafftio eich cynnig, **cliciwch ar gyfeirnod/teitl** y gofyniad.




Bydd y dudalen hon yn cynnwys yr holl fanylion ar gyfer y tendr, gan gynnwys y dyddiad cau ar gyfer eglurhad, dyddiad cau y tendr, statws cyflwyno, gofynion a dogfennau.

Cael Gafael ar Ddogfennau




I lwytho dogfennau'r tendr i lawr, cliciwch yn gyntaf ar y **botwm dogfennaeth**, a fydd yn eich arwain at y dudalen hon. Yna gallwch lwytho'r dogfennau i lawr yn unigol gan ddefnyddio'r botwm Llwytho i Lawr.

Llenwi'r Holiaduron



Drwy **sgrolio i lawr**, byddwch yn gallu gweld y gofynion a'r dogfennau.

I weld neu i ddechrau cwblhau'r gofynion, **cliciwch ar deitl yr adran gofynion.**



Gallwch sgrolio i lawr i weld y rhestr lawn o gwestiynau yma.

Mae dwy ffordd o roi eich ymatebion. Gweler yr opsiynau isod:



Opsiwn 1 – Clicio'r botwm 'Golygu Ymateb'. Yna byddwch yn gweld cwymplen, dolenni atodiadau neu flychau testun. Cliciwch ar 'Cadw Ymateb' ar ôl gorffen!



Opsiwn 2 – Cliciwch ar y cwestiwn ei hun, a fydd yn mynd â chi i dudalen newydd lle gallwch lywio drwy'r cwestiynau a'u cadw wrth i chi fynd.




Wrth i chi fynd drwy'r holiaduron, bydd y bar statws cwblhau yn dangos eich cynnydd. Os ydych chi wedi llenwi'r holiadur, ond nad yw'r bar wedi cyrraedd 100%, byddem yn argymell eich bod yn edrych ar y baneri gwyrdd a choch!

Baner werdd – Wedi'i gwblhau


Baner Goch – I'w gwblhau

Cyflwyno eich Tendr a/neu Gais

Ar ôl llenwi'r holl holiaduron a dangos eu bod i gyd yn 100%, gallwch gyflwyno eich tendr/cais.



Gallwch gyflwyno eich ymateb drwy glicio'r botwm 'Cyflwyno'



Os yw'r tendr neu'r cais yn cynnwys lotiau/rhannau, bydd angen i chi dicio'r holiaduron rydych chi'n eu cyflwyno.

Cwestiynau Cyffredin

1. Oes modd i fwy nag un gweithiwr gofrestru o dan un sefydliad?

Ateb:
Oes. Er mwyn lleihau'r risg o golli cyfathrebiadau, anogir cyflenwyr yn gryf i fod â mwy nag un defnyddiwr ATAMIS cofrestredig yn eu sefydliad a/neu fod wedi cofrestru gyda chyfeiriad e-bost cyffredinol y gall gwahanol gydweithwyr gael mynediad ato. Mae hyn yn helpu i sicrhau mynediad parhaus at gyfleoedd caffael, eglurhad a chyfathrebiadau sy'n ymwneud â chontractau os bydd staff yn absennol neu os bydd problemau o ran cyfrifon.

2. Beth yw'r maint ffeil mwyaf y gellir ei lwytho i fyny ar Atamis?

Ateb:
Does dim modd llwytho ffeiliau unigol i fyny ar fwy na 2GB. Pan fydd dogfennau ategol yn mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn, dylai cyflenwyr gywasgu ffeiliau i ffolder ZIP neu eu rhannu'n ffeiliau lluosog a'u llwytho i fyny ar wahân, gan sicrhau bod yr holl ffeiliau wedi'u labelu'n glir.

3. Beth yw fy enw defnyddiwr ar gyfer porth Atamis?

Ateb:
Eich enw defnyddiwr ar gyfer porth Atamis TrC fydd eich cyfeiriad e-bost, gyda **.tfw** ar y diwedd. (er enghraifft, *supplier1@web.com.tfw*)

Atgoffa am fanylion cymorth

Ar gyfer unrhyw ymholiadau neu faterion sy'n benodol i'ch cyfrif, cysylltwch ag Atamis yn uniongyrchol i gael cymorth.

- **Ffôn: 029 2279 0052**
- **E-bost: support@atamis.co.uk**